Cabinet Office

Swyddogol - Sensitif

# Yr Adolygiad Statudol o Bwerau Dyled a Thwyll Deddf yr Economi Ddigidol (2017)

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol â rhan 5, Pennod 3, adran 53 a phennod 4, adran 61 o Ddeddf yr Economi Ddigidol (2017)

Hydref 2023

© Hawlfraint y Goron 2024
Cynhyrchwyd gan Swyddfa'r Cabinet

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle rydym wedi nodi unrhyw ddeunydd sydd dan hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae fersiynau fformat amgen o'r adroddiad hwn ar gael ar gais o publiccorrespondence@cabinetoffice.gov.uk

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair Gweinidogol | 3 |
| Crynodeb Gweithredol | 4 |
| Cefndir a Chyflwyniad | 5 |
| Methodoleg | 6 |
| Proses rannu Data Dyled a Thwyll y DEA | 8 |
| Yr Adolygiad | 9 |
| Casgliadau | 19 |
| Argymhelliad | 20 |

# Rhagair Gweinidogol

Yn Ysgrifennydd Gwladol dros Swyddfa'r Cabinet, mae'n ofynnol i mi gynnal adolygiad o Bwerau Dyled a Thwyll Deddf yr Economi Ddigidol 2017 (DEA), 3 blynedd ( neu cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl) ar ôl iddynt ddod i rym ym Mai 2018. Bwriedir i'r Pwerau hyn hwyluso rhannu data i reoli a lleihau dyled sector cyhoeddus yn well ac i ymladd twyll yn erbyn y Sector Cyhoeddus.

Mae'r adroddiad hwn yn ffurfio rhan allweddol o'r adolygiad sy'n crynhoi tystiolaeth o werthuso cynlluniau peilot yn ogystal ag ymatebion ymgynghoriad gan randdeiliaid am effeithiolrwydd pwerau Dyled a Thwyll y DEA.

Mae'r adroddiad yn amlygu cynnydd arwyddocaol mae cyrff cyhoeddus wedi ei wneud o ran lleihau dyled ac ymladd twyll. Gwnaed hyn yn aml â chymorth Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus, corff newydd a sefydlwyd gan y Prif Weinidog presennol yn 2022. Ers Medi 2018 mae rhannu data gan ddefnyddio'r DEA ac wedi'i hwyluso gan y PSFA wedi arbed isafswm o £137 miliwn i'r pwrs cyhoeddus wrth ymladd twyll ac adfer dyled, gyda £132 miliwn wedi cael ei archwilio a'i wirio'n llawn am gywirdeb ar gyfer twyll a £5 miliwn mewn dyled wedi'i adfer. Mae hyn oll yn cyfrannu at lwyddiant y PSFA i arbed cyfanswm o £311 miliwn i'r trethdalwyr ym mlwyddyn gyntaf ei weithrediad.

Mae'r pwerau wedi cael eu defnyddio gan 17 Adran Llywodraeth ac Asiantaethau Gweithredol a 70 Awdurdod Lleol, gan arwain at dros 100 o gynlluniau peilot rhannu data sydd wedi'u cofrestru ar gov.uk. Mae nifer o'r cynlluniau peilot hyn wedi cynnwys ein cydweithwyr a'n hadrannau yn Llywodraethau Datganoledig Cymru a'r Alban. Mae gwaith yn parhau gyda'n cydweithwyr yng Ngogledd Iwerddon i fwrw ymlaen â chychwyn a defnyddio'r pwerau.

Mae cynyddu'r raddfa ac effeithiolrwydd o sut mae'r llywodraeth yn rhannu ac yn defnyddio data yn flaenoriaeth i'r llywodraeth hon. Yn achos y pwerau twyll a dyled penodol sy'n ddarostyngedig i'r adolygiad 3 blynedd hwn, mae'n amlwg fod y DEA wedi profi ei gwerth wrth gynyddu parodrwydd a gallu cyrff cyhoeddus i rannu data. Dangosir hyn gan amrywiaeth ac ehangder y cynlluniau peilot data a rhannu data busnes fel arfer sy'n lleihau dyled ac yn ymladd twyll. Mae ymatebion o'r ymgynghoriad wedi dangos bod archwaeth gynyddol i ddefnyddio'r pwerau gan gyrff sydd heb wneud hynny o'r blaen ac mae trafodaethau ar waith i'w hychwanegu at yr atodlenni.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod y DEA wedi darparu sylfaen gadarn ar gyfer dyfodol gwaith rhannu data cyrff cyhoeddus, gyda chynlluniau mewn grym ar gyfer nifer sylweddol fwy o gynlluniau peilot data a chynigion busnes fel arfer. Ar hyn o bryd mae 26 o gynlluniau peilot yn y cam cwmpasu a datblygu ar draws amrediad o gyrff sy'n dangos potensial sy'n tyfu i reoli dyled ac ymladd twyll yn y sector cyhoeddus. Bydd cyfleoedd helaethach ar gyfer rhannu data ynghyd ag awydd i gynyddu nifer y cyrff ar yr Atodlenni yn parhau i wella ein gallu i leihau dyled ac i ymladd twyll yn y dyfodol.

Fel y Gweinidog â chyfrifoldeb dros agenda wrth-dwyll y sector cyhoeddus, mae'n flaenoriaeth bersonol i ehangu cwmpas a chyrhaeddiad defnydd y pwerau hyn, gan gynnwys symud rhagor o gynlluniau peilot i gyflwr busnes fel arfer, yn ogystal â rhedeg rhagor o gynlluniau peilot ac ehangu'r rhestr o gyrff cyhoeddus sy'n defnyddio'r pwerau. Mae'r adolygiad hwn yn dangos effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth hon a sut y gall arwain at ganlyniadau cryf, mesuradwy.

Mae mwy i'w wneud wrth gwrs a dyna pam, yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarperir yn yr adroddiad hwn, rwy'n falch o gyhoeddi y byddaf yn cadw'r pwerau ar eu ffurf bresennol.

Cam terfynol yr adroddiad yw cyhoeddi'r adroddiad hwn ar gov.uk a gosod yr adroddiad yn Seneddau'r DU, yr Alban, Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon.

**Y FARWNES NEVILLE-ROLFE DBE SMG**
**GWEINIDOG GWLADOL DROS SWYDDFA'R CABINET**

# Crynodeb Gweithredol

- Mae Deddf yr Economi Ddigidol (2017) ("DEA" o hyn allan) yn darparu porth cyfreithiol goddefol i gyrff cyhoeddus ac unigolion penodedig erail a restrir ar atodlenni'r DEA i leihau'r ddyled sy'n ddyledus i'r sector cyhoeddus ac ymladd twyll yn erbyn y sector cyhoeddus.

- Diben yr adroddiad hwn yw bodloni gofyniad adolygiad statudol Adran 53 o Bennod 3 (Pŵer Dyled) ac Adran 61 o Bennod 4 (Pŵer Twyll) y pwerau, sydd i fod i gael ei gychwyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymaferol ar ôl diwedd y tair blynedd o'r ddeddfwriaeth yn dod i rym. Mae'n rhaid i'r Gweinidog perthnasol adolygu ei weithrediad a phenderfynu a ddylid ei ddiwygio, ei ddirymu neu ei gadw ar ei ffurf bresennol.

- Mae'r adroddiad yn seiliedig ar y dystiolaeth o gynlluniau peilot data a gwblhawyd a/neu gynigion busnes fel arfer a'r ymatebion o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd fel rhan o'r broses adolygu.

- Mae rhannu data drwy ddefnyddio'r DEA wedi arbed isafswm o £137 miliwn i'r pwrs cyhoeddus drwy ymladd twyll ac adfer dyled, gyda thua £132 miliwn wedi cael ei archwilio a'i wirio'n llawn am gywirdeb ar gyfer twyll a thua £5 miliwn mewn dyled wedi'i adfer.

- Derbyniodd yr ymgynghoriad adborth cadarnhaol gan gyrff cyhoeddus gan ystyried effeithiolrwydd pwerau'r DEA. Dangosodd dadansoddiad o'r ymgynghoriad fod 71% o ymatebwyr o Awdurdodau Lleol a ddefnyddiodd y pwerau yn meddwl eu bod yn ddefnyddiol ar gyfer adfer dyled. Dangosodd 95% o ymatebwyr yr ymgynghoriad a ddefnyddiodd y pwerau twyll fod y pwerau yn ddefnyddiol i ymladd twyll. At ei gilydd canfu 74% ar draws yr holl ymatebwyr a oedd wedi defnyddio'r ddau bŵer eu bod yn ddefnyddiol ac yn nodedig, eu bod wedi cynyddu parodrwydd a gallu cyrff cyhoeddus i rannu data i reoli a lleihau dyled ac ymladd twyll.

- Mae gan y DEA fecanweithiau mewn grym i sicrhau bod craffu cadarn yn cael ei gymhwyso i bob cytundeb rhannu data i sicrhau bod rhannu data gan ddefnyddio'r DEA yn gytbwys, cymesur, tryloyw ac mae'n cadw at ofynion cyfreithiol a diogelu data perthnasol, a gafodd eu cadarnhau mewn adolygiad diweddar o bwerau'r DEA gan yr ICO[1]. Datganodd ymatebwyr i'r

[1] Adolygiad yr ICO i rannu data o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017. Ar gael yn: https://ico.org.uk/media/about-the-ico/documents/4024606/ico-review-dea-20230314.pdf

ymgynghoriad eu bod heb gael pryderon preifatrwydd wrth ddefnyddio pwerau dyled a thwyll y DEA i rannu data.

- Mae'r ymgynghoriad wedi dangos bod cyrff cyhoeddus sydd wedi defnyddio'r pwerau wedi eu canfod yn effeithiol, a bod archwaeth gan gyrff cyhoeddus sydd heb ddefnyddio'r pwerau i'w defnyddio yn y dyfodol.

- Mae'r ymgynghoriad wedi darparu opsiynau ar gyfer gwelliannau ynghylch defnyddio'r pwerau, mae'r rhain yn cyfeirio at welliannau logistaidd a gweithdrefnol nad yw'n gofyn am newid deddfwriaethol. Bydd Ysgrifenyddiaeth y DEA yn gweithio i ddeall ble gellir gwneud y gwelliannau hyn.

- Yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarperir yn yr adroddiad hwn, mae Swyddfa'r Cabinet yn argymell bod y Gweinidog perthnasol yn cadw pwerau dyled a thwyll y DEA.

### Prif Gyflawniadau

- 102 o gynlluniau peilot rhannu data wedi'u cofrestru hyd yn hyn ar gov.uk[2]
- Dyled a adferwyd a thwyll a nodwyd, gyda'i gilydd, gwerth £137 miliwn, gan gynnwys:
  - Tua £99.5 miliwn o dwyll wedi ei nodi mewn cynllun peilot benthyciad Covid parhaol
  - £14.9 miliwn o dwyll wedi ei nodi gan Gynllun Twyll Cenedlaethol a chynllun peilot DEA
  - £5.1 miliwn o dwyll wedi ei nodi yng "nghyfrifon cysgodol" cwmnïau
  - Tua £5 miliwn wedi ei adfer yng nghynllun peilot dyled cychwynnol y DEA
- Pwerau dyled a thwyll y DEA wedi cael eu defnyddio gan 17 Adran Llywodraeth ac Asiantaethau gweithredol a 70 Awdurdod Lleol
- 3 chynllun peilot wedi cael eu symud i fusnes fel arfer gyda chynlluniau am 74 i ddilyn
- Rhannu data cynyddol ar draws y sector cyhoeddus
- Cymorth cynyddol i ddyledwyr bregus trwy Egwyddorion Tegwch y Llywodraeth

# Cefndir a Chyflwyniad

Daeth Deddf yr Economi Ddigidol (2017) i rym ym Mai 2018. Mae penodau 3 a 4 yn darparu porth cyfreithiol goddefol i gyrff cyhoeddus ac Unigolion Penodol eraill a restrir ar atodlenni'r DEA sy'n dymuno lleihau dyled sy'n ddyledus i'r sector cyhoeddus ac ymladd twyll yn erbyn y sector cyhoeddus.

Pwrpas yr adroddiad hwn yw bodloni'r gofyniad am adolygiad statudol o Adran 53 Pennod 3(Pŵer Dyled) ac Adran 61 o Bennod 4 (Pŵer Twyll) y pwerau, sydd i fod i gael ei gychwyn cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl ar ddiwedd tair blynedd ar ôl i'r ddeddfwriaeth ddod i rym. Mae'n rhaid i'r Gweinidog perthnasol adolygu ei weithrediad a phenderfynu a ddylid ei ddiwygio, ei ddirymu neu ei gadw ar ei ffurf bresennol. Oherwydd effaith y pandemig Covid 19, barnwyd ei bod yn angenrheidiol ac yn briodol i oedi'r adolygiad statudol hwn ar ymladd twyll yn erbyn y cynlluniau cymorth Covid-19.

---

[2] Cofrestr o gytundebau rhannu gwybodaeth o dan benodau 1, 2, 3 a 4 o ran 5 o Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (ar 30/9/23)

Bydd yr adroddiad yn asesu pwerau dyled a thwyll y DEA yn erbyn y Meini Prawf Adolygu isod a gafodd eu gosod gan Weinidog Swyddfa'r Cabinet ar y pryd, a'i gyhoeddi fel Datganiad Gweinidogaethol ysgrifenedig yng Ngorffennaf 2021[3]:

a) Beth sydd wedi cael ei gyflawni yn y tair blynedd ers cychwyn a sut mae perygl twyll a dyled wedi newid?

b) Ydi'r pwerau wedi bod yn effeithiol wrth reoli a lleihau dyled sy'n ddyledus i'r sector cyhoeddus ac wrth ymladd twyll yn erbyn y sector cyhoeddus?

c) Pa effeithiau cadarnhaol a negyddol (gan gynnwys effeithiau cymdeithasol) mae pwerau'r DEA wedi eu cael? Oherwydd eu nodweddion gwahanol, bydd meini prawf ar wahân yn cael eu defnyddio ar gyfer twyll a dyled:

    i) Ar gyfer Dyled: ydi'r pwerau wedi arwain at reolaeth well ac adfer dyled sy'n ddyledus i awdurdodau llywodraeth, tegwch cynyddol ac ymagweddau gwell at ddyledwyr bregus ymhlith y fath awdurdodau a phrosesau Busnes fel Arfer cynaliadwy sy'n caniatáu i arian a adferir lifo i mewn i'r pwrs cyhoeddus?

    ii) Ar gyfer Twyll: ydi'r pwerau wedi arwain at nodi'n well, atal ac adfer twyll a gyflawnir yn erbyn awdurdodau llywodraeth a phrosesau Busnes fel Arfer cynaliadwy sy'n caniatáu i atal twyll ac arian wedi'i adfer lifo i mewn i'r pwrs cyhoeddus?

d) Ydi'r pwerau wedi cyfrannu at gyflawni polisi Llywodraeth yn effeithiol, wedi helpu cefnogi addewidion maniffesto ac wedi cefnogi cynnal cyfanrwydd yr Undeb a'r Gweinyddiaethau Datganoledig?

e) Ydi'r pwerau wedi gwella parodrwydd awdurdodau cyhoeddus i ymgysylltu â phwerau rhannu data a'u defnyddio, wedi lleihau neu greu beichiau i awdurdodau lleol a/neu wedi achosi unrhyw bryderon preifatrwydd (megis mewn perthynas â gostyngiadau mewn preifatrwydd neu'r camddefnydd o ddata)?

f) Oes newidiadau y gellir eu gwneud a fyddai'n gwella effeithiolrwydd gweithrediadau'r pwerau dyled a thwyll?

Mae'r adroddiad adolygiad hwn wedi cael ei grynhoi gan Swyddogion y Gweinidog, yn Ysgrifenyddiaeth Dyled a Thwyll y DEA yn yr Awdurdod Twyll Sector Cyhoeddus (PDFA) yn Swyddfa'r Cabinet ("Ysgrifenyddiaeth DEA" o hyn allan).

# Methodoleg

Amcan yr adroddiad hwn yw dadansoddi effeithiolrwydd y DEA yn seiliedig ar y Meini Prawf Adolygu a restrir yn yr adran Gefndir. Er mwyn cyflawni hyn, mae Ysgrifenyddiaeth y DEA wedi defnyddio dulliau ansoddol yn ogystal â meintiol pan fo'n briodol. Cafodd yr ymchwil ei gynnal trwy gasglu

[3] Adolygiad Statudol o Bwerau Dyled a Thwyll Deddf yr Economi Ddigidol 2017
Datganiad a wnaed ar 20 Gorffennaf 2021. Ar gael yn: https://questions-statements.parliament.uk/written-statements/detail/2021-07-20/hlws209

tystiolaeth a gynhwysir mewn adroddiadau gwerthuso gan sefydliadau sydd wedi gweithredu cynllun peilot dyled neu dwyll.

Yn ogystal â thystiolaeth o gynlluniau peilot DEA, ymgynghorodd Ysgrifenyddiaeth y DEA â'r:

- Y Comisiynydd Gwybodaeth, Gweinidogion yr Alban, Gweinidogion Cymru, yr Adran Gyllid yng Ngogledd Iwerddon,
- a'r unigolion eraill hynny y barnodd y Gweinidog perthnasol yn briodol, gan gynnwys:
    - adrannau llywodraeth yn rhan o'r Pwyllgor Materion Cartref, sydd wedi ac sydd heb ddefnyddio'r pwerau dyled a thwyll ac adrannau sydd heb eu rhestru ar hyn o bryd yn Atodlenni dyled a thwyll y DEA;
    - cyrff cyhoeddus sydd wedi defnyddio'r pwerau ac;
    - aelodau o Fwrdd Adolygu Dyled a Thwyll y DEA gan gynnwys cynrychiolwyr o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) a grwpiau cymdeithas sifil megis yr Elusen Ddyled Step Change.

Mae Tabl 1 yn nodi'r canlyniadau lefel uchel o'r ymgynghoriad.

Tabl 1:
Cyfanswm yr ymatebion o'r ymgynghoriad

| | Cyfanswm y Rhai yr Ymgynghorwyd â Hwy | Ymatebion | Dim Ymatebion | Heb ymateb |
|---|---|---|---|---|
| Cyrff Cyhoeddus | 80 | 49 (61%) | 3 (4%) | 28 (35%) |
| Bwrdd Adolygu'r DEA | 23 | 12 (52%) | 2 (9%) | 9 (39%) |
| Cyfanswm | 103 | 61 (59%) | 5 (5%) | 37 (36%) |

Ymgynghorwyd â'r sefydliadau a'r unigolion hyn er mwyn deall a oeddent yn teimlo bod y pwerau dyled a thwyll wedi bod yn effeithiol, ac a deimlent fod newidiadau y gellid eu gwneud i wneud y pwerau'n fwy effeithiol.

Gofynnwyd 7 cwestiwn i gyrff cyhoeddus a gafodd eu cynllunio i gipio adborth ar elfennau o feini prawf yr adolygu. Ategodd canlyniadau'r arolwg hwn y dystiolaeth o'r gwerthusiadau peilot a darparodd gyfle i fesur canfyddiadau o'r pwerau; rhywbeth na ellir ei brofi trwy'r dystiolaeth a ddarparwyd yn yr adroddiadau gwerthuso. Ymgynghorwyd ag aelodau'r Bwrdd Adolygu a gofynnwyd cwestiynau e) a f) iddynt.

Roedd yr ymgynghoriad yn agored am 8 wythnos rhwng 28 Mawrth a 25 Mai 2023, cafodd ymatebion eu dadansoddi wedyn gan Ysgrifenyddiaeth y DEA. Caniataodd bob cwestiwn ymatebion trwy destun rhydd gan roi graddfa o hyblygrwydd i gyrff cyhoeddus. Ymgymerwyd â'r dadansoddiad gan ddau aelod o Ysgrifenyddiaeth y DEA ac fe'i hadolygwyd yn annibynnol gan ddau swyddog Swyddfa'r Cabinet, gan gynnwys uwch ddadansoddwr data cymwys.

Cafodd y dadansoddiad o ymatebion yr ymgynghoriad a'r adroddiadau gwerthuso eu huno a'u defnyddio i ymateb i bob un o'r meini Prawf Adolygu perthnasol.

Cafodd yr adroddiad terfynol ei adolygu a'i gymeradwyo gan Uwch Weision Sifil PSFA a Swyddfa Prif Weithredwr y PSFA.

# Proses rannu Data Dyled a Thwyll y DEA

Mae'n rhaid cynnal pob cytundeb rhannu data'r DEA yn unol â Chod Ymarfer y DEA (o hyn ymlaen "Y Cod"). Mae'r Cod yn manylu ar gyfres o ystyriaethau a phrosesau y mae'n rhaid i gyrff lynu wrthynt er mwyn sicrhau bod y rhannu data yn gymesur, tryloyw ac yn destun craffu. Mae Bwrdd Adolygu DEA ar gyfer rhannu data annatganoledig a Lloegr yn unig wedi'i sefydlu ers 2018 i gymhwyso craffu i gynlluniau peilot perthnasol. Mae'n cynnwys arbenigwyr pynciau o i) Gyrff Cyhoeddus. Adrannau'r Llywodraeth yn ogystal ag Awdurdodau Lleol; ii) cynrychiolwyr o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO); iii) aelodau wedi eu gwahodd o grwpiau cymdeithas sifil, megis y rheini sy'n cynrychioli hawliau preifatrwydd; a iv) aelodau wedi eu gwahodd o grwpiau cymorth dyled fel yr Elusen Ddyled Step Change.

Mae'n ofynnol i Gyrff Rhestredig sy'n dymuno sefydlu peilot rhannu data o dan y DEA gyflwyno Achos Busnes, Asesiad Effaith Diogelu Data, a Chytundeb Defnydd Data i'r Bwrdd Adolygu ar gyfer eu tiriogaeth genedlaethol. Bydd eu Hysgrifenyddiaeth DEA berthnasol yn adolygu'r holl ddogfennaeth i sicrhau bod y rhain yn addas i'w cyflwyno i'r Bwrdd Adolygu. Megis yn ôl y Cod, cynghorir cyrff gan yr Ysgrifenyddiaeth i sicrhau bod eu tîm cyfreithiol a'u swyddogion diogelu data yn cymryd rhan yn y gwaith o ffurfio'r dogfennau hyn. Mae'n ofynnol i'r uwch Swyddogion Cyfrifol yn y sefydliadau hyn lofnodi'r dogfennau hefyd, gan dderbyn unrhyw risgiau dros ben.

Mae'n bwysig nodi bod y pwerau wedi'u cynllunio i gael eu gweithredu trwy gynlluniau peilot i ddechrau. Cyn gynted ag yr archwilir buddion cynlluniau peilot, anogir parhad i drefniant busnes fel arfer, yn amodol ar gymeradwyaeth y Gweinidog. Er mwyn trosglwyddo i fusnes fel arfer, mae'n rhaid i gyrff ddarparu tystiolaeth o werth yr ymarfer rhannu data yn eu hadroddiadau diwedd adroddiadau peilot interim a dilynol. Cyn gynted â bod cynllun peilot wedi parhau i fusnes fel arfer, mae'r cynllun peilot yn dod yn gwbl weithredol tra bydd deddfwriaeth y DEA yn bodoli. Nid yw'r data yn gallu cael eu defnyddio at unrhyw ddiben heblaw am hwnnw a ddatganwyd yn nogfen lywodraethiant y cynllun peilot a busnes fel arfer.

# Yr Adolygiad

Bydd yr adran hon yn mynd i'r afael â phob un o'r Meini Prawf Adolygu trwy gyfeirio at dystiolaeth o gynlluniau peilot wedi'i chyfuno a thystiolaeth o'r ymgynghoriad.

a) *Beth sydd wedi cael ei gyflawni yn y tair blynedd ers cychwyn a sut mae perygl twyll a dyled wedi newid?*

**Defnydd cynyddol o bwerau dyled a thwyll y DEA ar draws y sector cyhoeddus**

Mae Tabl 2 yn darparu crynodeb o'r nifer a'r mathau o gynlluniau peilot naill ai fel cynllun peilot neu fusnes fel arfer sydd wedi cael eu hwyluso gan y DEA a'u cyhoeddi ar gofrestr gyhoeddus y DEA am y cyfnod o Mai 2018, tan 1 Awst 2023.

Tabl 2 Tabl crynodeb cynllun peilot dyled a thwyll y DEA:

| Trefniadau Rhannu Data Dyled a Thwyll y DEA | Cyfanswm | Cynlluniau peilot sy'n parhau fel busnes fel arfer |
|---|---|---|
| Cynlluniau Peilot Twyll | 29 | 3 |
| Cynlluniau Peilot Dyled | 73 | 0 |
| Cyfanswm cyfunol | 102 | 3 |

Mae'r DEA yn gofyn i'r holl raniadau data sy'n cael eu cynnal yn gynlluniau peilot gael eu cyhoeddi i sicrhau tryloywder a chynyddu ymddiriedaeth yn y broses. Ers gweithredu'r pwerau, mae Ysgrifenyddiaeth y DEA wedi rhestru 102 cynllun peilot ar gofrestr gyhoeddus y DEA.[4] Mae 73 o'r rhain i reoli a lleihau dyled, a'r mwyafrif ohonynt yn ffurfio dau grŵp ar wahân o gynlluniau peilot adfer dyled Treth Gyngor, sy'n cynnwys 70 Awdurdod Lleol (ALl). Bu 28 cynllun peilot twyll yn cynnwys tri sydd wedi symud i drefniant busnes fel arfer, cynlluniau peilot yw'r rhain rhwng (i) Tŷ'r Cwmnïau (CH) a Chyllid a Thollau ei Fawrhydi (CThEF), (ii) y Cynllun Twyll Cenedlaethol (NFI) a CThEF a (iii) Asiantaeth Cyllido Sgiliau Addysg (ESFA) a CThEF. Mae 74 cynllun peilot yn cael eu cwmpasu i symud i mewn i fusnes fel arfer, mae hyn yn cynnwys y 70 Awdurdod Lleol (ALl) sy'n cymryd rhan yn y cynllun peilot dyled Treth Gyngor a chamau yn cael eu cymryd i gynnwys pob Awdurdod Lleol yng Nghymru, Lloegr, a'r Alban. Mae gwaith llywodraethiant yn mynd rhagddo gyda'r 301 o ALlau ychwanegol hyn. Fel y mae'n sefyll mae tua 75% o'r cynlluniau peilot wedi neu wrthi'n cael eu symud i fusnes fel arfer. Mae'r symudiad i barhau cynllun peilot i broses busnes fel arfer yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys adnoddau, cyllidebau ac archwaeth adrannol. Er enghraifft, yn ystod COVID-19 cafodd adnoddau mewnol mewn adrannau eu hailflaenoriaethu a chafodd hyn effaith ar y gallu i ddatblygu cynlluniau peilot.

[4] (2023) Cofrestr o Gytundebau Rhannu Gwybodaeth o dan Benodau 1, 2, 3 a 4 o ran 5 o ddeddf yr economi ddigidol 2017. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/register-of-information-sharing-agreements-under-chapters-1-2-3-and-4-of-part-5-of-the-digital-economy-act-2017

Mae dibenion cynllun peilot yn gallu amrywio o nodi a deall amlder a graddfa twyll mewn system, hyd at ac yn cynnwys atal colli ac adfer cyllid. Mae datblygiad cynlluniau peilot i BAU yn dibynnu ar y nod a chanlyniadau, er enghraifft byddai canlyniad sy'n dangos nad oes twyll yn y system yn golygu bod y cynllun peilot wedi sefydlu'n llwyddiannus nad yw'n ofynnol symud i BAU ac mae wedi bodloni ei amcanion.

Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd o ganlyniadau cynllun peilot yn dangos y gwerth a'r llwyddiant a gyflawnir o ddefnyddio pwerau twyll a dyled.

Mae pwerau'r DEA wedi eu defnyddio gan gyrff cyhoeddus i ymladd twyll a dyled mewn meysydd allweddol megis Credyd Cynhwysol, Treth Cwmnîau, benthyciadau myfyrwyr, contractau llywodraeth, a rhagor. Fel y bydd yr adroddiad hwn yn ei drafod, mae cynlluniau peilot wedi'u cynnal gan Adrannau amrywiol o'r Llywodraeth, Asiantaethau Gweithredol ac Awdurdodau Lleol, gan arddangos er bod rhagor o waith i'w wneud i hyrwyddo'r pwerau, bod y ddeddfwriaeth yn dod yn fwy hysbys ac yn cael ei defnyddio ar draws llywodraeth ganolog a lleol.

Mae rhannu data gan ddefnyddio porth cyfreithiol y DEA wedi darparu'r gallu i gyrff cyhoeddus adfer tua £5 miliwn trwy gynllun peilot adfer Treth Gyngor sy'n cynnwys awdurdodau lleol lluosog yng Nghymru a Lloegr. Yn ogystal, mae nifer o gynlluniau peilot sydd wedi cael eu hwyluso trwy Swyddogaeth Wrth-Dwyll Swyddfa'r Cabinet (Awdurdod Twyll Sector Cyhoeddus yn awr) wedi arbed tua £132 miliwn i'r pwrs cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys dau gynllun peilot rhwng y Cynllun Twyll Cenedlaethol (NFI) a CThEF yn ogystal â chynllun peilot rhwng Swyddfa'r Cabinet, yr Adran, Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) a CThEF i ddarganfod twyll yng Nghynllun Benthyciad Adfer Covid-19 (BBLS). Bydd y cynlluniau peilot hyn yn cael eu trafod yn fanylach yn adrannau dilynol yr adroddiad hwn.

### Prif ganlyniadau ariannol o'r DEA

Tabl 4 Arbedion Ariannol Wedi'u Harchwilio o'r DEA*

| | Cyfanswm yr Arbedion Ariannol | Ataliwyd | Twyll a Adferwyd / Yn cael ei adfer<br>Dyled a Adferwyd |
|---|---|---|---|
| Ymladd Twyll | £132,205,247 | £8,175,550 | £124,029,697 |
| Rheoli a Lleihau Dyled | £5,000,000 | AMH | £5,000,000 |
| Cyfunwyd | £137,205,247 | £8,175,550 | £129,029,697 |

* Dim ond ffigurau a Archwiliwyd a ddangosir, mae cynlluniau peilot wedi creu canlyniadau ariannol ond nid ydynt wedi cael eu harchwilio.

Mae'r ffigurau twyll wedi'u harchwilio a gyflwynir yn Nhabl 4 uchod (tua £132 miliwn) wedi eu cymeradwyo'n fewnol, gan Fwrdd Sicrwydd Arbedion PSFA, ac wedi'u harchwilio gan Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth (GIAA). Mae'r ffigurau sy'n berthynol i ddyled (tua £5 miliwn) wedi cael eu hadrodd gan y cyrff cyhoeddus sydd wedi gweithredu'r cytundebau rhannu data, ac nid ydynt wedi cael eu harchwilio. Er bod rhaid i gyrff cyhoeddus sy'n defnyddio pwerau dyled a thwyll y DEA lunio adroddiad gwerthuso ar ôl i'w cynllun peilot ddod i ben, gan ddarparu gwybodaeth syweddol

am weithrediad y peilot a'i ganlyniadau perthnasol, nid oes gofyn ar hyn o bryd i ddarparu canlyniadau araiannol wedi'u harchwilio'n llawn i Ysgrifenyddiaeth y DEA. O ganlyniad, mae tua £27.5 miliwn ychwanegol o arbedion sydd wedi eu hadrodd ac nid yw'r rhain wedi eu cynnwys yn y ffigurau a archwiliwyd uchod.

Mae'r ysgrifenyddiaeth wedi cychwyn cynlluniau i wella'r gwaith o adrodd canlyniadau a bydd yn gweithio gyda chyrff i gytuno ar y gwaith o adrodd arbedion ariannol sicr ac archwiliadwy a buddion anariannol. Mae gwaith yn parhau â chyrff sy'n cymryd rhan ar y gwaith sicrwydd sy'n ofynnol ar gyfer adrodd am yr holl fuddion sy'n cael eu cynnwys o fewn meini prawf llwyddiant cynllun peilot, gan gydnabod bod effaith y DEA yn mynd y tu hwnt i arbedion ariannol, megis rheoli dyled yn effeithiol a chynorthwyo'r rheini sydd mewn dyled gan gynnwys dyledwyr bregus.

**Y DEA yn darparu atebion effeithiol i fynd i'r afael â phroblem twyll a dyled**

Mae cynlluniau peilot sydd wedi eu sefydlu ers i'r DEA ddod i rym wedi cael effaith ar leihau dyled ac ymladd twyll yn y sector cyhoeddus. Yn ogystal â chyflawni canlyniadau ariannol, gwelwyd bod cynlluniau peilot yn offer diagnostig effeithiol, gan ddarparu tystiolaeth bod cydweddu data yn bosibl ac mae ganddynt y potensial i'w ddefnyddio i leihau dyled ac ymladd twyll. Trwy gynlluniau peilot, mae'r DEA wedi caniatáu i sefydliadau a restrir ar yr atodlenni fynd i'r afael â phroblemau a oedd yn anodd eu datrys yn hanesyddol. Enghraifft yw'r gallu i ddilysu incwm unigolyn er mwyn adfer dyled Treth Gyngor wrth sicrhau y nodir dyledwyr bregus posibl a bod camau priodol yn cael eu cymryd i adfer y ddyled yn gymesur.

Er bod risg twyll yn parhau'n sylweddol ac mae'n parhau i esblygu, mae cyrff cyhoeddus wedi gallu defnyddio'r DEA i nodi twyll a chymryd camau angenrheidiol, gan gynnwys cryfhau eu systemau lle bo angen i atal twyll, adfer yr arian a gollwyd, a chymryd camau yn erbyn twyllwyr hyd at ac yn cynnwys erlyn. Fel y dangosir yn Nhabl 3, mae'r DEA wedi hwyluso tua £8 miliwn o dwyll wedi'i atal hyd yn hyn. Disgwylir y bydd y lefelau o dwyll a atelir gan y DEA yn cynyddu, a bydd yn debygol o arwain at arbedion i'r pwrs cyhoeddus cyn i arian gael ei golli a bod adnoddau'n cael eu defnyddio i'w adfer.

**Cynyddu archwaeth cyrff cyhoeddus i rannu data.**

Cafodd y DEA ei datblygu a'i chyflwyno yn dilyn cydnabyddiaeth a her gan lywodraeth, y sector cyhoeddus ac academia fod angen i gynyddu rhannu data i ymladd twyll a lleihau dyled. Un o'r prif themâu o'r ymgynghoriad oedd fod y pwerau wedi cynyddu parodrwydd a gallu cyrff cyhoeddus i rannu data i reoli a lleihau dyled ac ymladd twyll. Mae'r dadansoddiad yn dangos bod y pwerau wedi cynyddu eu parodrwydd a'u gallu i rannu data, atebodd 24 allan o 36 (67%) o ymatebwyr Awdurdodau Lleol yn gadarnhaol darparodd 9 allan o 10 (90%) o ymatebwyr Adrannau Llywodraeth ac Asiantaethau gweithredol ymateb cadarnhaol. Mae hyn yn arddangos effaith y pwerau o ran gwella rhannu data ar draws y llywodraeth.

Yn benodol, nododd ymatebwyr er bod eu huchelgais i rannu data at y dibenion hyn wedi bod yn uchel erioed, mae'r ddeddfwriaeth wedi gwneud y gwaith o rannu data yn fwy hygyrch, ac mae wedi darparu hyder iddyn nhw yn eu gallu i rannu gwybodaeth berthnasol yn gyfreithlon ac yn ddiogel. Mae'r adborth cadarnhaol a gasglwyd o'r ymgynghoriad felly'n awgrymu bod Awdurdodau Lleol o ddifrif am reoli a lleihau dyled ac ymladd twyll ac mae potensial ar gyfer ymgysylltu effeithiol â'r pwerau ar draws y sector cyhoeddus. Mae'r dystiolaeth y manylwyd arni yn y canlyniadau ariannol

ac ymatebion yr ymgynghoriad yn dangos bod cynnydd wedi bod ers i'r DEA ddod i rym a bod potensial am ragor o effaith gadarnhaol yn y cyfnod nesaf.

I grynhoi, mae 102 o gynlluniau peilot wedi bod, ag arbedion ariannol sylweddol ar draws cynlluniau llywodraeth, gan gynnwys Treth Gyngor, Cynlluniau Covid-19, Credyd Cynhwysol, Treth Cwmni a Benthyciadau Myfyrwyr, sydd wedi canfod datrysiadau effeithiol i fynd i'r afael â dyled a thwyll trwy rannu data a gwella'r archwaeth am rannu rhagor o ddata.

*b) Ydi'r pwerau, o'u defnyddio, wedi bod yn effeithiol wrth reoli a lleihau dyled sy'n ddyledus i'r sector cyhoeddus ac wrth ymladd twyll yn erbyn y sector cyhoeddus?*

**Tua £5 miliwn wedi ei adfer yng nghynllun peilot dyled cychwynnol y DEA**

Mae'r DEA wedi cael ei defnyddio'n effeithiol gan Awdurdodau Lleol i reoli a lleihau dyled Treth Gyngor. O 31 Mawrth 2022, roedd cyfanswm y ddyled Treth Gyngor yn £5 biliwn (wedi'i grynhoi ers cyflwyno Treth Gyngor yn 1993).[5] Cafodd un o'r grwpiau mwyaf arwyddocaol o gynlluniau peilot a oedd yn defnyddio pwerau dyled y DEA ei gynnal rhwng Mawrth 2019 a Mawrth 2020, gan 29 Awdurdod Lleol a CThEM i ymchwilio i werth posibl defnyddio data incwm CThEM nad oedd yn hygyrch o'r blaen i adfer dyled Treth Gyngor. Mae'n werth nodi yma bod pob Awdurdod Lleol yn gorff hunanlywodraethol ac felly'n gofyn am ei lywodraethiant rhannu data ei hun. Felly roedd y grŵp cyntaf o gynlluniau peilot yn cynnwys 29 cynllun peilot unigol rhwng Awdurdod Lleol a CThEF; adlewyrchir hyn yn y gofrestr. Roedd y grŵp hwn o gynlluniau peilot yn llwyddiannus a galluogodd gynghorau oedd yn cymryd rhan i adfer dyled yn weithredol gan y rheini mewn cyflogaeth trwy ganiatáu i'r Awdurdodau Lleol gysylltu â chyflogwyr unigol a rhoi Gorchymyn Atodiad o Enillion mewn grym os yw'n angenrheidiol ac yn gymesur.

Yn ystod y cynlluniau peilot, cafodd cymorth ei gynnig i'r rheini mewn caledi ariannol pan ddaeth eu hamgylchiadau yn hysbys i'w Hawdurdod Lleol. Cafodd tua £5 miliwn ei adfer o'r ddyled sampl o £25 miliwn, oedd yn dod i raddfa adfer o 20%. Yn ogystal â gweithio i symud y grŵp hwn o gynlluniau peilot yn eu blaenau i mewn i fusnes fel arfer ymgymerwyd ag ail grŵp o gynlluniau peilot ac mae'n cael ei werthuso ar hyn o bryd. Gan gynnwys 41 Awdurdod Lleol, anelodd y cynlluniau peilot hyn at asesu'r gwerth a ychwanegwyd gan ddata ychwanegol yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) gan gynnwys gwell baneri bregusrwydd. Mae'r gwaith hwn yn dangos gwerth gwirioneddol a phosibl rhannu data yn effeithiol rhwng Awdurdodau Lleol i reoli a lleihau dyled, yn ogystal ag effeithiolrwydd y DEA wrth ddarparu'r porth cyfreithiol. Ymhellach, mae hefyd yn dangos gwerth yr ymagwedd cynlluniau peilot sy'n caniatáu cyflwyno data newydd fydd yn gallu cael eu hasesu wedyn o ran eu heffaith a'u gallu i liniaru risgiau cyn symud i mewn i reolaethau ffurfiol a threfniadau busnes fel arfer.

**Tua £99.5 miliwn o dwyll wedi ei nodi mewn cynllun peilot benthyciad Covid parhaol**

Mewn ymateb i'r lefel uwch o risg a digwyddiad twyll yn ystod y pandemig yn erbyn cynlluniau cymorth Covid-19, darparodd Swyddfa'r Cabinet gynllun peilot dadansoddi twyll o Fehefin 2020 hyd Fehefin 2023 ar ran yr Adran Busnes a Masnach (DBT) (sef yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth

---

[5] (2022) *Cyfraddau a derbyniadau casglu Treth Gyngor a threthi annomestig yn Lloegr, 2021-22 (diwygiwyd)*. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1108764/Collection_rates_for_Council_Tax_and_non-domestic_rates_in_England__2021_to_2022__revised_.pdf (Cyrchwyd: 30 Mehefin 2023).

Ddiwydiannol (BEIS) fel y'i gelwid yn flaenorol), a'r Banc Busnes Prydeinig (BBB) i nodi twyll mewn Cynlluniau Covid-19,gan ddefnyddio data CThEF. Mae hyn wedi cynnwys defnyddio'r data a hwyluswyd trwy'r DEA i dynnu sylw at geisiadau benthyciadau twyllodrus posibl. Mae banciau sy'n Fenthycwyr Achrededig ar gyfer y Cynlluniau wedi defnyddio'r baneri hyn i geisio ad-daliad o'r benthyciad. Mae benthycwyr hefyd wedi tynnu benthyciadau o warant y Wladwriaeth mewn achosion lle maen nhw wedi derbyn atebolrwydd am y twyll a/neu golled credyd (sy'n golygu mai'r benthyciwr ac nid y wladwriaeth sy'n ysgwyddo'r colledion). Hyd yma mae arbedion o fenthyciadau a ad-dalwyd yn dod i gyfanswm o £99.5 miliwn, a disgwylir rhagor o arbedion.

**Mae gwaith ymgynghori yn dangos bod cyrff cyhoeddus yn credu bod y DEA yn effeithiol.**

Dangosodd dadansoddiad o'r ymgynghoriad fod 71% o ymatebwyr o Awdurdodau Lleol a ddefnyddiodd y pwerau yn meddwl eu bod yn ddefnyddiol ar gyfer adfer dyled. Cynyddodd y ffigur hwn i 74% ar draws yr holl ymatebwyr oedd wedi defnyddio'r pwerau. Mae'r ymatebion yn dangos bod yr effeithiolrwydd hwn o ganlyniad i fanteisio ar ddata nad oedd ar gael o'r blaen.

Dangosodd 95% o ymatebwyr yr ymgynghoriad a ddefnyddiodd y pwerau twyll fod y pwerau yn ddefnyddiol i ymladd twyll. Yn yr un modd, dangosodd ymatebion fod mynediad at ddata nad oedd modd eu cael o'r blaen yn allweddol i'r canlyniadau effeithiol hyn.

I grynhoi, mae tystiolaeth o'r adroddiadau gwerthuso cynlluniau peilot ac ymatebion i ymgynghoriad yn dangos bod y pwerau wedi bod yn effeithiol wrth reoli a lleihau dyled a mynd i'r afael â thwyll, a diogelu'r pwrs cyhoeddus.

c) *Pa effeithiau cadarnhaol a negyddol (cymdeithasol a fel arall) mae pwerau'r DEA wedi eu cael? Oherwydd eu heffeithiau gwahanol, cynhelir meini prawf ar wahân ar gyfer twyll a dyled, gan ofyn a yw'r pwerau:*
    - *Ar gyfer Dyled: wedi arwain at reoli ac adfer helaethach o ddyled sy'n ddyledus i awdurdodau llywodraeth, ymagweddau tegwch/bregusrwydd cynyddol ymhlith y fath o awdurdodau a darpariaethau Busnes fel Arfer cynaliadwy sy'n caniatáu i arian a adferir lifo i mewn i'r pwrs cyhoeddus.*

**Cynyddu'r gwaith o adfer dyled a gweithredu i nodi dyledwyr bregus gan ddefnyddio'r DEA**

Fel mae'r dystiolaeth mewn ymateb i Feini Prawf Adolygu (b) wedi dangos, mae'r DEA wedi arwain at reoli ac adfer helaethach o ddyled trwy ddarparu porth cyfreithiol syml ar gyfer ennill mynediad at ddata. Roedd gan y grŵp cyntaf o gynlluniau peilot dyled oedd yn defnyddio'r DEA gyfradd adfer o 20%, gan gynhyrchu tua £5 miliwn o ddyled nad oedd modd ei hadfer yn flaenorol. Mae llwyddiant y cynllun peilot hwn wedi nodi'r potensial i adfer rhagor o ddyled ac mae gwaith wedi dechrau ar hyn o bryd i ddatblygu'r cynllun peilot i gynnwys pob Awdurdod Lleol, sy'n dymuno cymryd rhan, mewn busnes fel arfer.

Mae'r DEA hefyd wedi cyfrannu at sicrhau bod rhannu data ac unrhyw gamau a gymerir mewn ymateb i dystiolaeth a enillir trwy rannu data yn deg, a bod pobl fregus yn cael eu nodi a bod mesurau yn cael eu cymryd i sicrhau eu bod yn cael eu trin yn deg. Yn 2018, datganodd adroddiad Swyddfa Archwilio Genedlaethol y dylai Swyddfa'r Cabinet "barhau i archwilio sut i wella rhannu data o fewn

llywodraeth, i helpu teilwra ymagweddau rheoli dyled i amgylchiadau dyledwyr ac osgoi bod rhannau gwahanol o lywodraeth yn cystadlu â'i gilydd."[6] Mewn ymateb i hyn, cafodd cynllun peilot rhwng CThEF, Swyddfa'r Cabinet, Awdurdodau Lleol amrywiol a sawl Adran o'r Llywodraeth ei gychwyn i ennill dealltwriaeth o feysydd sy'n gorgyffwrdd lle mae ar unigolion ddyled i fwy nac un corff cyhoeddus (hynny yw, adrannau o'r Llywodraeth a/neu Awdurdod Lleol), a sicrhau dealltwriaeth well o'r unigolion hynny a gofnodir yn fregus gan CThEF.

Cynhelir gwaith cwmpasu gan y llywodraeth yn ehangach i ddatblygu cynllun peilot gweithrediadol ychwanegol fydd yn caniatáu'r gallu i nodi dyledwyr bregus posibl a rhoi mesurau mewn grym i adfer dyled yn gymesur ac yn unol ag egwyddorion Tegwch y Llywodraeth.

Datganodd ymatebwyr fod y DEA yn ddefnyddiol o ran eu hymagwedd at nodi ac ymgysylltu â dyledwyr bregus. Nid oedd ymatebwyr a ddatganodd fod y pwerau yn wrthgynhyrchiol yn hyn o beth. Amlygodd Awdurdodau Lleol hefyd, wrth ddarparu'r gallu i adnabod dyledwyr bregus, fod y DEA wedi cyfrannu at allu Awdurdodau Lleol i weithredu yn unol ag Egwyddorion Tegwch. Nododd yr ymatebwyr effeithiau cadarnhaol ychwanegol. Er enghraifft, nododd Awdurdodau Lleol lefel gynyddol o ymgysylltu gan gwsmeriaid, ac arbedion ar adnoddau a allai gael eu defnyddio i symud polisïau a blaenoriaethau eraill yn eu blaenau. Ni wnaeth yr ymgynghoriad adnabod unrhyw effeithiau negyddol o ganlyniad i gymhwyso pwerau'r DEA i reoli dyled ar lefelau llywodraeth leol a chanolog.

- *Ar gyfer Twyll: arweiniodd at adnabod, atal ac adfer twyll helaethach a gyflawnwyd yn erbyn awdurdodau llywodraeth a darpariaethau Busnes fel Arfer cynaliadwy sy'n caniatáu i arian a adferir lifo i mewn i'r pwrs cyhoeddus*

**£5.1 miliwn o dwyll wedi ei nodi yng "nghyfrifon cysgodol" cwmnïau**

Cafodd cynllun peilot cychwynnol y DEA ei arwain gan y Ganolfan Arbenigedd Gwrth-Dwyll ym Medi 2018, gan ddwyn ynghyd Dŷ'r Cwmnïau (CH) a CThEF i dargedu “cyfrifo cysgodol” sy'n cynnwys cwmnïau sy'n camddatgan eu datgeliadau cyfrifo a'u strwythurau corfforaethol i Dŷ'r Cwmnïau a CThEF er mwyn osgoi neu ddianc rhag Treth Gorfforaeth, Treth ar Werth (VAT), cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr neu atebolrwydd Difidend Cyfarwyddwr i CThEF. Nododd y cynllun peilot £14.7 miliwn o dwyll, a £5.1 miliwn o'r swm hwn wedi cael ei sicrhau gan archwiliad yn arbedion ariannol. Yn ogystal, cafodd 3,510 set o gyfrifon statudol eu nodi yn anghywir ar gofrestr Tŷ'r Cwmnïau a'u diwygio wedyn, gan wella cywirdeb a chyfanrwydd y gofrestr. Mae'r cytundeb rhannu data hwn wedi symud i fusnes fel arfer.

**£14.9 miliwn o dwyll wedi ei nodi gan Gynllun Twyll Cenedlaethol a chynllun peilot DEA**

Mae un o'r darnau mwyaf arwyddocaol o waith wedi'i hwyluso gan y DEA wedi bod rhwng Cynllun Twyll Cenedlaethol Swyddfa'r Cabinet ac Awdurdodau Lleol. Mae'r Cynllun Twyll Cenedlaethol yn ymarfer parhaol sy'n cydweddu data electronig o fewn a rhwng 1200 o gyrff sector cyhoeddus a phreifat er mwyn atal a darganfod twyll. Wedi'i gynnal o dan y Ddeddf Archwilio ac Atebolrwydd Lleol 2014, mae'r Cynllun Twyll Cenedlaethol yn cydweddu 26 set ddata o bob rhan o'r llywodraeth, gan alluogi cyrff cyhoeddus ac Awdurdodau Lleol i nodi gweithgaredd twyllodrus mewn systemau megis

[6] (2018) *Adroddiad trawslywodraeth, Trysorlys EF - Swyddfa Archwilio Genedlaethol*. Ar gael yn: https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2018/09/Tackling-problem-debt-Report.pdf (Cyrchwyd: 28 Mehefin 2023).

Tenantiaeth Tai, Treth Gyngor, Data Cyflogres Gweithwyr a Thrwyddedu. Rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2022 galluogodd y Cynllun Twyll Cenedlaethol sefydliadau oedd yn cymryd rhan i atal a darganfod/adfer £443 miliwn o dwyll a gwallau ar draws y DU.

Rhwng 2018 a 2022, mae'r DEA wedi darparu porth cyfreithiol ar gyfer dau gynllun peilot rhwng y Cynllun Twyll Cenedlaethol a CThEF. Rhannodd y Cynllun Twyll Cenedlaethol gyfanswm o 20 miliwn o gofnodion â CThEF i alluogi Awdurdodau Lleol i ddarganfod ac atal twyll trwy ddarparu'r gallu iddynt asesu cymhwyster ar gyfer buddion megis Treth Gyngor a Budd-dal Tai Cyfanswm y canlyniadau ar 31 Hydref 2022 am y ddau gynllun peilot wedi'u cyfuno oedd tua £14.9 miliwn ar draws gwahanol ddarnau o weithgaredd twyllodrus mewn systemau megis Treth Gyngor a Budd-dal Tai. Mae'r cytundeb rhannu data hwn wedi symud i fusnes fel arfer.

**Trefniadau busnes fel arfer mewn grym i ymladd twyll**

Ers i bwerau'r DEA ddod i rym yn 2018, mae tri chynllun peilot rhannu data a gafodd eu cychwyn i ymladd twyll wedi trosglwyddo'n llwyddiannus i drefniadau busnes fel arfer.

Mae cynlluniau peilot busnes fel arfer Cyfrifon Cysgodol Tŷ'r Cwmnïau wedi adnabod treth mewn perygl wedi'i gadarnhau, o dros £10 miliwn. Mae'r achosion hyn o dan ymchwiliad gan CThEF ar hyn o bryd.

Yn ogystal, mae gan y cynlluniau peilot busnes fel arfer Cynllun Twyll Cenedlaethol a CThEF y potensial am ganlyniadau a amcangyfrifir i godi i rwng £16 miliwn a £36 miliwn, gan ddibynnu ar lefelau o ymgysylltu gan gynghorau lleol, ar gyfer pob cylch 2 flynedd y Cynllun Twyll Cenedlaethol.

Mae cynllun peilot rhwng yr Asiantaeth Cyllido Addysg a Sgiliau (ESFA) a CThEF wedi parhau i fusnes fel arfer. Cafodd y cynllun peilot hwn ei sefydlu i ddarganfod twyll lle roedd darparwyr dysgu yn cyflwyno ceisiadau cyllido ffug gan ddefnyddio manylion adnabod ffug i greu ymgeiswyr nad oedd yn bodoli. Nododd y cynllun peilot raddfa twyll a gwallau o 4.5% gan sicrhau arbedion o £715,896. Gydag ail gynllun peilot yn arwain at £12.06 miliwn o arbedion.

Mae'n werth nodi na fydd pob cynllun peilot llwyddiannus yn symud ymlaen i BAU, er enghraifft, mae rhai cynlluniau peilot wedi'u cynllunio i nodi a oes twyll, i brofi prosesau mewnol, ac felly'n atal twyll rhag mynd i mewn i'r system a rhoi hyder i'r cyrff sy'n cymryd rhan. Yn ogystal, gall fod gan gyrff lefelau amrywiol o allu staffio/adnoddau a gall hyn effeithio ar eu gallu i ddwyn ymlaen gynllun peilot a/neu gynigion busnes fel arfer yn gyflym, gan ddibynnu ar ofynion blaenoriaethu mewnol.

d) *Ydi'r pwerau wedi cyfrannu at bolisi Llywodraeth; ymateb i addunedau maniffesto Llywodraeth; cefnogi cynnal cyfanrwydd yr Undeb a'r gweinyddiaethau Datganoledig;*

**Cymorth y DEA i Strategaeth Rheoli Dyled y Llywodraeth a'r Awdurdod Twyll Sector Cyhoeddus**

Cyhoeddodd Swyddogaeth Rheoli Dyled y Llywodraeth Strategaeth Dyled y Llywodraeth (y Strategaeth) 2023-26 yn ddiweddar sy'n amlinellu ei huchelgais i wella ymhellach sut mae dyled sy'n

ddyledus i'r llywodraeth yn cael ei datrys, gan alluogi Canlyniadau Dyled Teg i Bawb.[7] Mae'r adroddiad yn manylu ar orchwyl y llywodraeth i gynorthwyo'r rheini mewn amgylchiadau bregus i leihau'r nifer sy'n syrthio i ddyled broblemus, yn ogystal â cheisio gwella gallu'r llywodraeth i ddatrys dyled yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae'r defnydd o rannu pwerau data DEA yn un o'r teclynnau mae'r Strategaeth yn ei amlygu am ei allu i nodi pobl fregus ac atal dyled broblemus rhag digwydd.

Tanlinellodd y gwaith o ffurfio'r PSDA yn 2022 benderfyniad y llywodraeth i fynd i'r afael â thwyll ac mae'r gwaith mae Ysgrifenyddiaeth y DEA yn ei wneud i hwyluso a chynyddu'r defnydd o ddata a chynlluniau peilot rhannu data gan ddefnyddio'r DEA yn rhan ganolog o'r sefydliad.

Fel mae'r dystiolaeth yn yr adolygiad hwn wedi dangos, mae'r DEA wedi darparu cyfraniad arwyddocaol i bolisi'r llywodraeth i reoli a lleihau dyled ac ymladd twyll.

**DEA a'r Gweinyddiaethau Datganoledig**

Mae'r DEA wedi cefnogi cynnal a chyfanrwydd yr undeb trwy weithio'n agos gyda llywodraethau datganoledig ar draws y DU i gefnogi'r defnydd o'r porth cyfreithiol a ddarperir gan bwerau dyled a thwyll y DEA. Defnyddir y pwerau yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd gan gyrff cyhoeddus yn yr Alban a Chymru, ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i gynnwys Gogledd Iwerddon yn Atodlenni'r DEA. Ers i'r pwerau ddod i rym, mae cynlluniau peilot rhannu data wedi bod gan ddefnyddio'r DEA gyda dau gynllun peilot yn cynnwys cyrff cyhoeddus Albanaidd a thri yn cynnwys cyrff cyhoeddus Cymreig.

Mae cynllun peilot ychwanegol rhwng Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys yr Alban (SCTS) a CThEF a gychwynnwyd ym Medi 2022 yn chwilio i gynorthwyo SCTS mewn adfer dyled. Cyn y cynllun peilot, nid oedd gan SCTS fynediad at wybodaeth incwm dyledwyr gwiriadwy, gan eu hatal rhag gallu dilysu incwm dyledwr a chymryd camau priodol i adfer yr arian sy'n ddyledus. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn a gwneud adfer dyled yn fwy effeithlon, mae'r cynllun peilot hwn wedi cyfuno data dyledwyr SCTS a Thalu Wrth i Chi Ennill (PAYE) CThEF a data Hunanasesu sy'n gallu cael eu defnyddio i ddilysu incwm a nodi gweithredoedd adfer yn well i unigolion nad ydynt yn ad-dalu eu dyled, gan gynnwys adfer dyled yn uniongyrchol oddi wrth gyflogwyr os oes angen yn ogystal â nodi dyledwyr bregus posibl a chymryd mesurau priodol i sicrhau yr adferir dyled yn deg ac yn gymesur. Mae'r cynllun peilot hwn yn mynd rhagddo.

Ymhellach, yn ogystal â chael dau Awdurdod Lleol yn ymwneud â Pheilot Treth y Cyngor y cyfeirir ato ym Maen Prawf Adolygu (b), mae cyrff cyhoeddus Cymru wedi gwneud defnydd pellach o'r DEA. Rhwng Mehefin 2021 a Mawrth 2022, sefydlwyd peilot rhwng Llywodraeth Cymru a CThEM i ganfod twyll mewn grantiau a roddwyd i fusnesau gan Lywodraeth Cymru ar ran CThEM mewn ymateb i Covid-19. Cydweddwyd y data yn llwyddiannus, ac ni nododd dystiolaeth o dwyll. Er na chynhyrchodd y cynllun peilot hwn ganlyniadau ariannol, darparodd sicrwydd yn llwyddiannus fod ei reolaethau twyll presennol yn effeithiol.

Mae Ysgrifenyddiaeth y DEA o fewn y PFSA wedi adeiladu a chynnal perthnasoedd gwaith iach â'r llywodraethau datganoledig, gan rannu gwybodaeth yn briodol mewn perthynas â mynd i'r afael â phroblemau dyled a thwyll. Mae cydweithwyr o gyrff cyhoeddus yn yr Alban yn mynychu ac yn

[7] 2023-26 Strategaeth Dyled y Llywodraeth. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/23-26-government-debt-strategy/2023-26-government-debt-strategy-html#overview-of-the-strategy (Cyrchwyd: 10 Gorffennaf 2023).

arsylwi'n rheolaidd ar y bwrdd Adolygu Dyled a Thwyll. Yn ogystal, dangosodd yr ymgynghoriad fod y llywodraethau datganoledig yn awyddus i barhau i weithio'n agos gydag Ysgrifenyddiaeth y DEA i ddefnyddio'r pwerau. Yn eu hymatebion i'r ymgynghoriad, dangosodd yr Adran Gyllid yng Ngogledd Iwerddonei dymuniad i estyn y pwerau i mewn i'w tiriogaeth, tra amlygodd cynrychiolwyr a chyrff cyhoeddus yng Nghymru a'r Alban fuddion y DEA trwy fynegi eu dymuniad i barhau i gynyddu'r defnydd o'r pwerau yn y dyfodol.

e) *Ydy'r pwerau wedi gwella parodrwydd awdurdodau cyhoeddus i ymgysylltu a defnyddio'r pwerau rhannu data wedi lleihau neu greu beichiau i awdurdodau lleol; wedi creu unrhyw bryderon preifatrwydd, megis mewn perthynas â gostyngiadau mewn preifatrwydd neu'r camddefnydd o ddata;*

Mae cyrff cyhoeddus sydd wedi defnyddio pwerau dyled a thwyll y DEA, wedi dangos parodrwydd mwy i ymgysylltu â'r DEA a'i ddefnyddio. Fel y crybwyllwyd mewn ymateb i Feini Prawf yr Adolygiad (a), un o'r themâu o'r ymgynghoriad oedd fod cyrff cyhoeddus wedi datgan i'r pwerau gynyddu eu gallu a'u parodrwydd i rannu data i reoli a lleihau dyled ac ymladd twyll gan fod y pwerau wedi bod yn werthfawr ar gyfer darganfod twyll a dyled, gydag ymatebwyr hefyd yn amlygu bod proses y DEA yn symlach na phyrth cyfreithiol eraill. Yn ogystal, datganodd rhai cyrff cyhoeddus nad oeddent wedi defnyddio'r pwerau eu cefnogaeth i'r pwerau a'u huchelgais o gael eu cynnwys yn atodlenni'r DEA yn y dyfodol.

Datganodd 30 allan o 36 (83%) o ymatebwyr Awdurdodau Lleol nad oeddent wedi cael pryderon preifatrwydd wrth ddefnyddio pwerau'r DEA a gwnaeth 9 allan o 10 (90%) o Adrannau'r Llywodraeth ac Asiantaethau Gweithredol y datganiad hwn hefyd. Mewn ymateb i'r cwestiwn ynghylch pryderon preifatrwydd, amlygodd ymatebwyr y mesurau diogelwch cadarn mewn grym trwy gydol y broses i sicrhau yr ymdrinnir â phryderon preifatrwydd yn briodol.

Dim ond un achos o dor diogelwch data, effaith isel a gafwyd. Digwyddodd y tor diogelwch data gan fod nifer o Awdurdodau Lleol wedi methu â nodi pob un o'r trydydd partïon oedd â mynediad at eu systemau adfer dyled trwy lanlwythiad data wythnosol (ac felly byddai mynediad wedi bod ganddynt i ddata'r cynllun peilot). Cafodd y toriad ei nodi a'i gywiro'n gyflym. Cafodd cynrychiolydd yr ICO ar Fwrdd Adolygu'r DEA ei hysbysu am y mater a barnwyd nad oedd angen adroddiad ffurfiol.

Yn ddiweddar nododd Ysgrifenyddiaeth y DEA wall gweinyddol yn y dyddiadau oedd wedi'u cynnwys yn y gwaith papur ar gyfer cynllun peilot. Creodd hyn fwlch o nifer o oriau lle na chafodd data a gyflenwyd o dan delerau'r cytundeb rhannu data eu hadfer yn llawn yn ystod y broses i drosglwyddo i BAU. Gweithredodd Ysgrifenyddiaeth y DEA ar unwaith i roi gwybod i'r cyrff oedd yn cymryd rhan i atal rhannu'r data, asesu'r risgiau a chychwyn lliniaru priodol a gytunir gan bob parti gan gynnwys gwersi a ddysgwyd. O ganlyniad, mae mannau adolygu rheolaidd wedi cael eu hymgorffori i wiriadau gweithdrefnol Ysgrifenyddiaeth y DEA.

Mewn ymdrech i sicrhau tryloywder a chydymffurfiaeth â materion diogelu data a phreiftarwydd, mae Ysgrifenyddiaeth y DEA yn ymgysylltu'n rheolaidd â'r ICO. Mae cynrychiolwyr o'r ICO yn arsylwyr o Fwrdd Adolygu Dyled a Thwyll y DEA ac mae ganddynt arolygiaeth ar bob cynnig rhannu data a gyflwynir i'r bwrdd. Croesawir ac anogir adborth a'r mewnbwn gwerthfawr a gyfrannir gan gydweithwyr ICO.

Bu'r adborth o'r ICO ynghylch proses rhannu data'r DEA yn gadarnhaol at ei gilydd. Yn ei adroddiad diweddar ym Mawrth 2023, datganodd yr ICO fod y fframwaith ar gyfer rhannu data o dan y DEA yn darparu cefndir cefnogol i helpu sefydliadau i rannu data mewn ffyrdd sydd o fudd i'r cyhoedd. Ystyriodd yr adroddiad hefyd fframwaith y DEA a chanfu ei fod yn cynnwys trefniadau diogelu cadarn sy'n sicrhau bod sefydliadau yn rhannu data yn gyfrifol ac yn gydnaws ag egwyddorion diogelu data, wrth ddiogelu hawliau pobl hefyd.[8] Nododd yr adroddiad hefyd ei bod yn ofynnol i gyrff cyhoeddus sy'n dymuno rhannu data o dan Bwerau Dyled a Thwyll y DEA gwblhau Asesiad Effaith Diogelu Data (DPIA) sy'n cael ei adolygu wedyn gan Ysgrifenyddiaeth a Bwrdd Adolygu'r DEA. Gwnaeth yr ICO sylw yn yr adroddiad fod rhai sefydliadau wedi dangos ymagwedd ragorol at DPIA, gan eu cwblhau cyn i brosesu ddigwydd a sicrhau bod eu dogfennaeth yn cynnwys asesiadau trwyadl, manwl gan gynnwys gweithredoedd lliniaru ar gyfer unrhyw risgiau a adnabyddir. Darparodd yr ICO adborth gwerthfawr hefyd i wella'r broses DPIA, gan amlygu'r angen i gyflawni asesiadau DPIA cyn rhannu data a darparu digon o fanylion ar ddogfennau DPIA am gynlluniau peilot, er enghraifft, swm y data sy'n cael ei rannu. Mae Ysgrifenyddiaeth y DEA yn croesawu ymgysylltu a mewnbwn parhaus gan yr ICO a bydd yn sicrhau bod ei adborth yn cael ei ystyried a bod camau yn cael eu cymryd lle bo angen

f) *Oes newidiadau y gellir eu gwneud a fyddai'n gwella effeithiolrwydd gweithrediadau'r pwerau dyled a thwyll?*

Roedd adborth adeiladol wedi'i ddarparu gan gyrff cyhoeddus a Bwrdd Adolygu Dyled a Thwyll y DEA. Codwyd nifer o faterion logistaidd yn welliannau posibl i effeithiolrwydd gweithrediad y pwerau dyled a thwyll.

Un o'r themâu o'r ymgynghoriad oedd angen am gyfathrebu mwy effeithiol rhwng cyrff cyhoeddus ynghylch sut y gellir defnyddio'r DEA. Er enghraifft, dangosodd Awdurdodau Lleol fod lefel o anghysondeb o ran sut y dehonglir y ddeddfwriaeth ar draws adrannau llywodraeth ynghylch pa ddata y gellir neu na ellir eu rhannu mewn cynllun peilot rhannu data.

Awgrymodd thema arall o ymatebion yr ymgynghoriad gan Awdurdodau Lleol ac Adrannau'r Llywodraeth fod angen mwy o ymwybyddiaeth o'r DEA. Mae llawer o sefydliadau sydd â phroblem dyled neu dwyll yn anymwybodol o'r ddeddfwriaeth neu efallai eu bod wedi clywed amdani ond nad ydynt yn deall y broses o sut i gychwyn cynllun peilot dyled neu dwyll, na sut y gallai fod o fudd i'w corff cyhoeddus. I fynd i'r afael â hyn, un o brif flaenoriaethau'r DEA yw cynyddu ac ehangu ymestyn i wneud cyrff cyhoeddus yn ymwybodol o'r DEA a sut y gallai fod o fudd iddynt.

Mater arall a gafodd ei adnabod oedd hyd y broses a'r amser mae'n ei gymryd i dderbyn y data y gofynnir amdanynt, gyda sawl ymatebydd yn datgan yn eu profiad hwy, y cymerodd y broses ormod o amser a golygai fod y data wedi dyddio ac yn aneffeithiol o ran mynd i'r afael â'u problem ar ôl iddynt ddod i law. Mae Ysgrifenyddiaeth y DEA wedi cydnabod angen i gydbwyso'r rhannu data i'w wneud mor amserol ac effeithlon â phosibl, tra'n sicrhau bod yr holl brosesau'n cael eu dilyn yn unol â gofynion rhannu data cyrff cyhoeddus ac yn unol â Chod Ymarfer y DEA. Yr amser cyfartalog o ddatblygu cynllun peilot i gymeradwyaeth weinidogol yw 7 mis. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn gweithio i wella ei phrosesau llywodraethiant gweithdrefnol trwy fonitro a gwerthuso cynnydd yn well ar adegau hollbwysig o weithgaredd sy'n ofynnol i gyflawni cynllun peilot. Mae cyflymder cynlluniau peilot DEA

[8] (2023) *Adolygiad yr ICO i rannu data o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017*. Ar gael yn: https://ico.org.uk/media/about-the-ico/documents/4024606/ico-review-dea-20230314.pdf (Cyrchwyd: 04 Awst 2023).

yn ddibynnol ar brosesau mewnol, llywodraethiant, staffio, darpariaeth adnoddau, gallu a blaenoriaethau adrannol cyrff cyhoeddus.

Awgrymodd ymatebion gan gyrff cyhoeddus y byddent yn hoffi i'r broses fod yn fwy hyblyg o ran gwneud mân newidiadau i'r cytundeb rhannu data pan oedd y cynllun peilot yn weithredol. Megis â'r Cod Ymarfer, mae proses ar gyfer gwneud amrywiadau i gytundebau sy'n sicrhau bod y newidiadau arfaethedig yn ddarostyngedig i'r un ystyriaethau craffu a phreifatrwydd a diogelu data â phob cynnig. Er y gall hyn ychwanegu amser at hyd y broses, mae hyn yn sicrhau bod arfer dyledus ddiwydrwydd yn achos pob amrywiad arfaethedig o'r pwys mwyaf. Trafodir yr agwedd hon â chyrff cynlluniau peilot wrth drafod unrhyw gynigion ynghylch amrywiadau.

Roedd yr adborth a ddarparwyd gan ymatebwyr y Bwrdd Adolygu Dyled a Thwyll yn gadarnhaol, gan amlygu effeithiolrwydd y DEA wrth ddarparu porth cymharol syml, gan ganiatáu i ddata gael eu rhannu'n gyfreithlon a'u defnyddio i fynd i'r afael â thwyll ac adfer dyled. Mae'r prif bryder a amlygwyd gan aelodau'r Bwrdd Adolygu yn ymwneud â'r broses busnes fel arfer, gyda sawl aelod yn amlygu'r angen am ragor o eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau aelodau'r Bwrdd Adolygu o ran cynllun peilot yn trawsnewid i fusnes fel arfer. Yn ogystal, datganodd rhai aelodau Bwrdd Adolygu y gallai'r trawsnewid hwn gael ei lyfnhau i wneud y broses yn fwy amserol. Mae'r adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei fwydo i mewn i adolygiad o'r cod ymarfer dyled a thwyll, yn rhan o adolygiad statudol cyffredinol o holl godau ymarfer y DEA i weithredu gwelliannu ac eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau.

I grynhoi, mae'r newidiadau a nodwyd gan ymgyngoreion yn perthyn i'r broses yn hytrach na deddfwriaeth y DEA hithau, sy'n awgrymu bod y rheini sy'n defnyddio'r pwerau yn ystyried eu bod yn effeithiol. I gloi, mae tri chorff llywodraeth sydd ddim ar yr atodlenni ar hyn o bryd wedi dangos dymuniad i gael eu hychwanegu ac mae Ysgrifenyddiaeth y DEA yn gweithio gyda'r adrannau hyn i'w hychwanegu at yr atodlenni ac yn annog cyrff eraill yn weithredol i ymuno.

# Casgliadau

Mae'r adroddiad hwn wedi dangos, mae'r DEA wedi bod yn declyn effeithiol sy'n gallu cael ei ddefnyddio gan gyrff cyhoeddus i reoli a lleihau dyled, gydag ystyriaeth gynyddol o ddyledwyr bregus ac ymladd twyll. Mae'r rhannu data sydd wedi digwydd ers i'r pwerau fod yn weithredol wedi darparu gwerth trwy ganiatáu i gyrff cyhoeddus rannu data oedd yn anhygyrch yn flaenorol. Mae adborth gan gyrff sydd wedi defnyddio'r pwerau wedi awgrymu bod y pwerau yn effeithiol, gydag adrannau llywodraeth a llywodraethau datganoledig nad ydynt yn Bersonau Penodedig o dan y DEA yn datgan eu cefnogaeth i'r pwerau a'u huchelgais i gael eu cynnwys yn atodlenni'r DEA yn y dyfodol.

Mae'r dystiolaeth yn yr adroddiad hwn wedi dangos bod y ddeddfwriaeth wedi gwella parodrwydd a gallu cyrff cyhoeddus i rannu data i fynd i'r afael â'r materion hyn yn effeithiol ac yn gymesur, a bod potensial i'r ddeddfwriaeth fod yn biler o allu'r sector cyhoeddus i atal twyll cyn i arian gael ei dalu allan o gymharu a'r dasg anos o adfer arian. Yn ogystal ag arddangos effeithiolrwydd rhannu data i fynd i'r afael â phroblemau dyled a thwyll, mae'r dystiolaeth hefyd wedi dangos bod hyn yn cael ei wneud yn gymesur ac yn unol â deddfwriaeth berthnasol ac ystyriaethau diogelu data. Mae Cod Ymarfer, Ysgrifenyddiaeth, a Bwrdd Adolygu'r DEA yn sicrhau bod pob cynnig rhannu data yn gymesur ac yn destun craffu, a byddai hyn yn parhau pe byddai'r pwerau'n cael eu cadw.

# Argymhelliad

Mae'r adolygiad statudol yn cynnig tri opsiwn i'r Gweinidog, sef diwygio, diddymu neu gadw ar eu ffurf bresennol.

Diwygio - er bod awgrymiadau wedi bod sy'n cael eu hystyried i wella a rhoi'r broses ar waith, nid oes awgrymiadau wedi bod a fyddai'n gofyn am ddiwygio'r ddeddfwriaeth hithau - gellir mynd i'r afael â'r rhan fwyaf trwy newidiadau i'r Cod neu welliannau i fodel gweithredu'r Bwrdd Adolygu. Mae cyfranogwyr yn hapus â'r porth a'r cwmpas mae'n ei ddarparu ar gyfer rhagor o rannu data ar draws llywodraeth, ond mae rhagor i'w wneud, gellir cyflawni hyn trwy wneud gwelliannau gweithdrefnol ac ysgogi agweddau diwylliannol at rannu data. Fodd bynnag, mae'r ymgynghoriad hwn wedi dangos, ar y cam hwn er mwyn cyflawni'r defnydd ehangach hwn nad oes gofyn am newid deddfwriaethol, mae'r pwerau'n ddigonol i gyflawni canlyniadau da ac i wneud rhagor yn y dyfodol. Nid yw diwygio yn cael ei argymell.

Diddymu - Mae'r dystiolaeth a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn awgrymu bod y pwerau wedi bod yn effeithiol. Byddai diddymu'r pwerau yn arwain at ostyngiad o ran graddfa ac ehangder y modd y mae'r llywodraeth yn defnyddio data at ddibenion twyll a dyled, ni fyddai cynlluniau peilot sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd un dod i fodolaeth, gan golli felly holl fuddion y cynlluniau peilot dyled a thwyll. Er enghraifft, y golled bosibl o adfer dyled Treth Gyngor, a allai adfer miliynau o bosibl. Nid oes ymatebwyr wedi awgrymu diddymu yn yr ymgynghoriad; mae'r gwelliannau arfaethedig yn weithdrefnol a gellir eu hystyried a mynd i'r afael â hwy trwy newidiadau i'r Cod Ymarfer neu welliannau i fodel gweithredu'r Bwrdd Adolygu. Mae'r pwerau wedi cael eu cefnogi i raddau helaeth iawn, wedi darparu canlyniadau da a dylent gael eu cynnal naill ai yn y fformat presennol neu un diwygiedig. Mae llywodraeth yn cael ei beriniadu am beidio â gwneud digon â data, ac mae ymdrech o'r newydd i harneisio technolegau sy'n dod i'r amlwg megis Deallusrwydd Artiffisial yn rhan o strategaethau trawsnewid digidol. Bydd porth y DEA yn declyn canolog i ddatblygu'r dyhead ehangach hwn a byddai Diddymu yn bwrw'r llywodraeth yn ôl, fel y cyfryw nid yw Diddymu yn cael ei argymell.

Cadw - mae'r dystiolaeth yn yr adroddiad yn dangos bod y pwerau yn llwyddiannus ac mae cefnogaeth a diddordeb eang yn eu defnydd parhaol.

Fel y nodwyd, diben yr adolygiad statudol hwn yw penderfynu a ddylai pwerau dyled a thwyll y DEA gael eu diwygio, eu diddymu neu eu cadw ar eu ffurf bresennol, gan nodi bod yr ymgynghoriad wedi darparu opsiynau ar gyfer gwelliannau sy'n perthyn i welliannau logistaidd a gweithdrefnol nad yw'n gofyn am newid deddfwriaethol. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad hwn, mae Swyddfa'r Cabinet yn argymell bod y Gweinidog perthnasol yn cadw pwerau dyled a thwyll y DEA ar eu ffurf bresennol.